Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Centre for Reproduction and Gynaecology Wales Ltd (CRGW)

12 a 13 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-6565-7
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 4
3. Cyd-destun ........ 5
4. Crynodeb ........ 6
5. Canfyddiadau ........ 7
   Ansawdd Profiad y Claf ........ 7
   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 10
   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
6. Y Camau Nesaf ........ 16
   Atodiad A ........ 17

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael yn hwylus i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol.  Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

[1] Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## 2. Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar y cyd gyda'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a gasglwyd gan y ddau sefydliad. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg ar ddiwrnod yr arolygiad o ba mor dda mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd.

---

[2] Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae Centre for Reproduction and Gynaecology Wales Ltd (CRGW) wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn Ely Meadows (Parc Gwyddoniaeth Feddygol), Rhodfa Marics, Llantrisant CF72 8XL. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau ffrwythlondeb i gleifion dydd sy'n oedolion. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 30 Gorffennaf 2010.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar obstetregydd a gynaecolegydd ymgynghorol, tair nyrs ffrwythlondeb, tri chynorthwyydd nyrsio, pedwar embryolegydd, rheolwr practis, a staff gweinyddol.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Ffrwythloni in vitro (IVF)
- Chwistrellu sberm mewnsytoplasmig (ICSI)
- Semenu mewngroth (IUI)
- Ysgogi ofwleiddio a semenu mewngroth (OI/IUI)
- Rhoi wyau
- Rhannu wyau
- Diwylliant blastosyst
- Deori a gynorthwyir
- Rhewi embryonau
- Delweddu EmbryoScope
- Rhewi sberm
- Triniaeth lawfeddygol ar gyfer cael sberm.

## 4. Crynodeb

O edrych ar y dystiolaeth, gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf, a'u bod yn ymroddedig i sicrhau’r profiad gorau posibl i gleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ynghylch eu gwaith, ac roedd y cleifion roeddent yn eu trin yn agos at eu calon. Roedd y gwasanaeth yn manteisio ar gyfleoedd ar ddiwedd pob cylch driniaeth i ofyn am adborth y cleifion, a defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio a gwella'r gwasanaeth.

Gwnaethom siarad â rhai o'r cleifion oedd yn derbyn triniaeth gan CRGW, a chael adborth gan saith o gleifion eraill oedd yn derbyn triniaeth mewn holiaduron. Roedd eu sylwadau'n hynod gadarnhaol ynghylch pob agwedd ar y gwasanaeth.

Yn gyffredinol, rhoddwyd sicrwydd i AGIC fod 'Centre for Reproduction and Gynaecology Wales Ltd' yn darparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, a oedd wedi'u seilio ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt ac a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion yn y gwasanaeth.

Nodwyd rhai gwelliannau i'w gwneud i'r llyfr cofnodi cyffuriau rheoledig, ac rydym hefyd wedi argymell y dylai'r gwasanaeth edrych eto ar ei bolisïau presennol ar gyfer diogelu oedolion a golchi dillad.

Roedd tîm staff sefydlog yn gweithio yn y gwasanaeth, a'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol oedd yn eu harwain o ddydd i ddydd. Anogwyd y staff i fynd ati i gyfrannu syniadau at y gwaith o redeg y gwasanaeth, a gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'r uwch staff eraill yn gweithio'n galed i hybu darpariaeth gofal a thriniaeth o ansawdd uchel.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad, yn ymwneud â'r dull o gofnodi triniaethau cleifion ac arsylwadau clinigol yn ystod triniaethau ymyrrol. Er nad yw hyn wedi arwain at gyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i’r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i’r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau’n cael eu cymryd gan AGIC yn unol â’n proses diffyg cydymffurfio a gorfodaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**O edrych ar y dystiolaeth, gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf, a'i fod yn ymroddedig i sicrhau'r profiad gorau posibl i gleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ynghylch eu gwaith, ac roedd y cleifion roeddent yn eu trin yn agos at eu calon. Roedd y gwasanaeth yn manteisio ar gyfleoedd ar ddiwedd pob cylch driniaeth i ofyn am adborth y cleifion, a defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio a gwella'r gwasanaeth.**

**Gwnaethom siarad â rhai o'r cleifion oedd yn derbyn triniaeth gan CRGW, a chael adborth gan saith o gleifion eraill oedd yn derbyn triniaeth mewn holiaduron. Roedd eu sylwadau'n hynod gadarnhaol ynghylch pob agwedd ar y gwasanaeth.**

Yn ystod yr arolygiad hwn, ac ar y cyd â'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol, cawsom siarad â rhai o'r cleifion oedd yn derbyn triniaeth. Gwnaethom hefyd adael rhai holiaduron, a chafodd saith ohonynt eu llenwi a'u dychwelyd atom. Roedd y cleifion yn unfrydol gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn gan y staff yn CRGW, a rhoddwyd y sylwadau canlynol i ni gan gydsynio i ni eu cynnwys yn ein hadroddiad:

*"Mae staff caredig iawn yn y clinig – ac maen nhw'n rhoi'r cleifion yn gyntaf!"*

*"Staff ardderchog a chyfeillgar. Rwy'n teimlo 'mod i'n cael digon o gefnogaeth trwy gydol fy nhriniaeth."*

*"Roedd y diwrnod agored yr aethom iddo wedi'i drefnu'n dda iawn, gan ddarparu digon o wybodaeth i ni allu gwneud ein penderfyniad. Oherwydd y diwrnod agored hwn y gwnaethom ni benderfynu mai'r clinig hwn oedd y dewis iawn i ni. "*

<u>Ymgysylltu </u>â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ansawdd a lefel bodlonrwydd cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Ar ddiwedd pob cylch triniaeth maent yn eu darparu, gofynnir i'r claf/cleifion lenwi holiadur. Dywedodd y staff wrthym fod ymateb da i hyn, ac maent yn ymroddedig i adolygu a dadansoddi'r canlyniadau fel bod modd iddynt ganfod a allant wella mewn unrhyw ffordd.

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth am driniaethau hefyd ar gael i gleifion. Roedd y rhain yn benodol i driniaethau.

Gwnaethom drafod yr angen i ystyried darparu gwybodaeth i gleifion yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ieithoedd eraill yn ôl yr angen.  Efallai y dylid ystyried fformatau eraill megis ffont hawdd ei darllen a sain, yn dibynnu ar anghenion y cleifion. Dywedwyd wrthym na chyflwynwyd unrhyw gais nac angen i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth mewn unrhyw ffordd arall hyd yn hyn. Fodd bynnag, cytunodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n syniad da i adolygu hyn, a byddai ymgysylltu â'u cleifion i gael adborth ar hyn yn sicrhau y byddai'r adolygiad hwn hyd yn oed yn fwy buddiol.

Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8)

Gwnaethom edrych ar sampl o nifer o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad, a oedd i gyd ar gyfrifiadur. Fodd bynnag, roedd peth o'r wybodaeth wedi'i nodi ar bapur ac yna'i sganio i'r cyfrifiadur. Er i ni ganfod bod yr holl wybodaeth ofynnol yno ar y cyfan, weithiau roedd y ddau ddull a ddefnyddiwyd gyda'i gilydd yn golygu y gallai dod o hyd i bopeth oedd yn berthnasol fod yn anodd. Mae'r staff sy'n defnyddio'r dogfennau bob dydd yn amlwg yn gwybod lle maent yn cadw gwybodaeth. Fodd bynnag, os byddai angen eu hailystyried yn y dyfodol, mae perygl y byddai'n anodd chwilio amdanynt. Gwnaethom argymell y dylent adolygu'r defnydd o'u system electronig er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth ar goll, waeth beth fo fformat y cofnodion.

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Mae cael caniatâd gan gleifion sy'n derbyn triniaethau ffrwythlondeb yn rhan allweddol o'r broses. Gwnaethom drafod hyn â'r staff, a chawsom sicrwydd eu bod yn wybodus ac yn ddeallusol ynghylch yr angen i gael caniatâd a'r materion cyfreithiol cymhleth sy'n ymwneud â rhoi triniaethau ffrwythlondeb. Daethom i'r casgliad eu bod yn ddigon gwybodus i sicrhau y byddent yn gwneud eu gorau glas i ymdrin â'r broses hon mor sensitif a gofalus ag y bo modd, a hynny er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall ehangder y materion cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau ffrwythlondeb.

Gwnaethom argymell y dylid cryfhau'r broses rhoi caniatâd ymhellach trwy greu protocolau ysgrifenedig yn amlinellu'r broses ac yn cyfeirio at ystyriaethau cyfreithiol; byddai'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol wrth gefnogi achosion lle gallai cleifion newid eu penderfyniad, neu pan fyddai staff yn ystyried bod angen iddynt ailystyried eu penderfyniad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu'r polisi rhoi caniatâd presennol i sicrhau ei fod yn cyfeirio at sut y dylai staff ymateb i newidiadau posibl o ran cydsyniad claf, a allai ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses driniaeth.***

Urddas a Pharch (Safon 10)

Mae'r brif ardal aros yn y gwasanaeth yn fawr ac agored, ond mae ardal aros fechan ymhellach i ffwrdd y gellid ei defnyddio pe bai'n well gan gleifion. Mae nifer o ystafelloedd clinig ar gael ac ystafell gynadledda fawr, ac mae un ohonynt yn aml ar gael ac mae modd eu defnyddio os yw cleifion angen preifatrwydd. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod cleifion yn cyrraedd ac yn cael eu gweld yn gyflym. Nid oedd yn ymddangos bod cyfnodau hir o aros.

Caiff y triniaethau mwy ymyrrol, a ddarperir gan y gwasanaeth, eu gwneud mewn rhan wahanol o'r adeilad, ymhellach i ffwrdd oddi wrth y brif dderbynfa a'r ardal aros gan roi mwy o breifatrwydd.

<u>Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)</u>

Mae amrywiaeth eang o wybodaeth i gleifion ar gael ar-lein ar wefan y gwasanaeth ei hun. Yn ogystal, roedd taflenni gwybodaeth ar bapur ar gael yn y gwasanaeth i'r cleifion fynd â nhw adref. Esboniodd y staff i ni fod eu cleifion yn tueddu i fod yn wybodus iawn ynghylch eu dewisiadau o ran triniaeth cyn dod atynt. Maent yn rhoi taflenni gwybodaeth am driniaethau sydd wedi'u teilwra, yn dibynnu ar y cwrs triniaeth a argymhellwyd ac a ddewiswyd i bob unigolyn.

Mae'r dogfennau gwybodaeth sy'n ofynnol dan y rheoliadau (datganiad o ddiben a chanllaw defnyddwyr gwasanaeth) ar gael ar bapur yn y gwasanaeth. Roedd y dogfennau wedi'u cyfuno ac roeddent yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ddiweddaru'r ddogfen a'i hadolygu mewn perthynas â'r rheoliadau er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn. Ni wnaethom archwilio pa un a yw’r datganiad o ddiben, neu'r cynnwys, ar gael i bob claf, ond yn unol â'r rheoliadau, dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod ar gael. Dylai'r rheolwyr gwasanaeth ystyried a ellid ychwanegu'r ddogfen hon i'w gwefan (yn ddefnyddiol) gan gynnig ffordd arall o gael gwybodaeth yn rhwydd.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Yn gyffredinol, rhoddwyd sicrwydd i AGIC fod 'Centre for Reproduction and Gynaecology Wales Ltd' yn darparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, a oedd wedi'u seilio ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt ac a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion o fewn y gwasanaeth.**

**Nodwyd rhai gwelliannau i'w gwneud i'r llyfr cofnodi cyffuriau rheoledig, ac rydym hefyd wedi argymell y dylai'r gwasanaeth edrych eto ar eu polisïau presennol ar gyfer diogelu oedolion a golchi dillad.**

<u>Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol (Safon 7)</u>

Gwelsom fod y driniaeth a'r gofal yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau cytûn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddygon ymgynghorol, ac mae'n cynnwys staff meddygol sydd wedi dilyn hyfforddiant arbenigol ychwanegol sy'n benodol i'r maes gwaith hwn. Mae tair nyrs ffrwythlondeb tra hyfforddedig ar gael sy'n meddu ar sgiliau ychwanegol ac sy'n gallu gwneud rhai triniaethau clinigol, gan gynnwys sganiau.

Yn ystod triniaeth ymyrrol yn y gwasanaeth, gwelsom fod y cofnodion yn cael eu nodi'n syth yn y nodiadau ar y cyfrifiadur. Er bod hyn yn syniad da mewn egwyddor, nid oedd mewn fformat gwrth-ymyrraeth, ac nid oedd yn caniatáu trywydd archwilio llawn o unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r cofnodion, y gellid eu hychwanegu ar unrhyw adeg. Roeddem yn bryderus ynglŷn â'r canfyddiad hwn, a mynegwyd hynny ar unwaith. Roedd y staff yn barod i dderbyn ein canfyddiadau a gwnaethant gytuno nad oedd y dull hwn o gadw cofnodion yn ddiogel. Gwnaethant ddatblygu dull o gael gwared ar y perygl, ac roeddent am ddechrau ei ddefnyddio ar unwaith. Cawsom sicrwydd o weld y camau gweithredu a gymerodd y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r broblem hon.

<u>Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed (Safon 11)</u>

Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn wybodus ynghylch yr ystyriaethau diogelu arbenigol ar gyfer eu maes gwaith. Roedd hyn yn cynnwys y ddeddfwriaeth yn ymwneud â lles y plentyn.

Gwnaethom argymell y dylent wella eu gwybodaeth a'u polisïau o ran diogelu oedolion trwy ystyried egwyddorion diogelu cyffredinol ymhellach, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'u maes gwaith arbenigol. Gwnaethom drafod hyn ac awgrymu y dylent ystyried siarad â gwasanaethau ffrwythlondeb eraill i weld sut y maent yn ymdrin â'r gofynion o ran cyfrinachedd a thrin data, y mae'n rhaid iddynt lynu atynt.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Archwilio'r polisïau diogelu a sicrhau eu bod mor drylwyr a phriodol â phosibl, gan ystyried y maes gwaith arbenigol.***

<u>Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)</u>

Roedd system ar waith ar gyfer glanhau a thacluso'r gwasanaeth. Roedd staff glanhau ar gael a oedd yn glanhau pob ardal gyffredinol yn y gwasanaeth dair gwaith bob wythnos. Roedd hyn yn cynnwys yr ardal aros, y fynedfa a'r toiledau. Y staff nyrsio oedd yn glanhau pob ardal arbenigol (h.y. y rhai a ddefnyddiwyd i roi triniaethau).

Mae gan un o'r nyrsys ffrwythlondeb gyfrifoldebau rheoli, a'i chyfrifoldeb hi yw monitro safon y gwaith glanhau a sicrhau bod pob ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Oherwydd yr archwiliadau rheolaidd mae hi'n eu cynnal i sicrhau bod yr ardaloedd yn lân, gwelodd nad oedd yr oriau glanhau ar y pryd yn ddigon i gynnal safonau cyson, ac o ganlyniad, roedd y gwasanaeth yn bwriadu cynyddu nifer y dyddiau roedd y staff glanhau yn cael eu cyflogi i weithio.

Yn ystod pob dydd, cyfrifoldeb pob aelod o'r staff (ond y staff nyrsio'n bennaf) yw gwneud gwaith cynnal a chadw ychwanegol yn yr ardaloedd i gleifion, megis y toiledau, gan ddarparu mwy o bapur tŷ bach a thywelion papur, a gofalu am unrhyw ardal sydd angen ei glanhau'n annisgwyl. Gwnaethom drafod hyn ac argymell y dylai'r gwasanaeth ystyried ai dyma'r defnydd mwyaf priodol o amser y staff presennol, ac a fyddai rhywbeth megis penodi unigolyn cadw tŷ ychwanegol yn lleihau rhywfaint ar y gwaith ychwanegol hwn ac yn golygu y byddai staff mwy addas yn gwneud y gwaith.

Gwnaethom edrych ar yr ardaloedd lle gwneir triniaethau ymyrrol, a lle eir â'r cleifion i wella ar ôl bod dan anesthetig neu dawelydd. Roedd yr ardaloedd hyn i'w gweld yn lân, yn daclus, ac yn rhydd rhag annibendod. Gwnaethom ganfod y dylid sicrhau bod pob sinc y mae'r staff clinigol yn ei ddefnyddio i ymolchi eu dwylo, yn benodol ar gyfer hynny, ac y dylai peiriannau sebon addas fod ar gael a bin dim cyffwrdd wrth ymyl i gael gwared ar dywelion papur.

Gwelsom nad oedd ardal briodol i gael gwared ar unrhyw wastraff hylif, heb y posibilrwydd o heintio ardaloedd glân. Gwnaethom drafod y gweithdrefnau presennol, a chytunodd y staff i gael ateb dros dro fel bod modd cael gwared ar unrhyw wastraff hylif yn briodol. Yn y tymor hwy, efallai y bydd angen ad-drefnu'r cynllun a'r sinciau yn yr ystafell glinigol wrth ymyl y theatr fel bod modd cael gwared ar unrhyw wastraff hylif heb heintio eitemau ac ardaloedd glân.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer cael gwared ar wastraff hylif a bod y rhain yn cael eu gosod fel na ellir halogi arwynebau ac offer glân wrth eu gwaredu.***

Mae'r staff yn gwneud y golch i gyd (dillad theatr, cynfasau a gorchuddion o welyau triniaeth cleifion a gwelyau yn yr ystafell wella) yn ystod y dydd. Mae peiriant golchi dillad a sychwr dillad ar gael mewn ystafell ar lawr daear y gwasanaeth. Roedd polisi golchi dillad wedi'i sefydlu, a gwnaethom edrych ar y polisi a thrafod y broses gyda'r staff. O ystyried y polisi a'r drafodaeth a gawsom, rhoddwyd sicrwydd i ni eu bod wedi ystyried sut i ymdrin â'r broses o wneud y golch yn ddiogel gryn dipyn. Fodd bynnag, mae'r dasg hon yn cael ei gwneud gan y staff yn ychwanegol at y gwaith o ddarparu gofal i gleifion, ac er ein bod yn cydnabod bod hyn yn cael ei wneud ar adegau pan nad yw'r staff yn gofalu am gleifion, nid oeddem yn fodlon bod hyn yn cael ei wneud gan yr aelodau staff mwyaf priodol. Gwnaethom drafod yr arfer presennol yn helaeth ac awgrymu adolygu'r holl broses. Yn y cyfamser, rydym wedi cynghori'r rheolwr cofrestredig i ddod o hyd i ffordd o fonitro'r broses olchi er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y tymheredd gofynnol am ddigon o amser i sicrhau bod y golch yn cael ei ddadheintio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu'r broses gwneud golch bresennol, gan gynnwys sicrhau bod y cylch golchi yn ddigonol. Rhoi gwybod i AGIC yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad hwn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth sydd wedi llywio'r penderfyniadau a wnaed. Os bydd y system bresennol yn parhau, rhoi gwybod i AGIC yn ysgrifenedig pwy fydd yn gwneud y golch yn y dyfodol a ph'un a yw'n bosibl graddnodi'r peiriant yn barhaus.***

<u>Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15)</u>

Gwnaethom edrych ar y systemau y mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer archebu, storio, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau. Er na welsom unrhyw dystiolaeth o unrhyw broblemau o ganlyniad i'r arferion, roeddem o'r farn bod nifer o gamau yn y broses y gellid eu gwella:

Roedd y llyfr cofnodi cyffuriau rheoledig yn ddigonol ond gellid ei wella. Gwnaethom awgrymu rhai newidiadau i'r system a ddefnyddir i gofnodi meddyginiaeth a roddir ar y pryd, fel bod modd nodi faint a roddwyd ac unrhyw wastraff, yn glir a chyson.

<u>Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol (Safon 16)</u>

Roedd contractau cynnal a chadw ar waith ar gyfer yr holl offer. Roedd cofnodion gwiriadau diagnostig dyddiol ar gael, a oedd yn gynhwysfawr, ar gyfer y peiriannau

labordy. Roedd y gwasanaeth wedi gofyn am gyngor ar gynnwys y troli dadebru, er mwyn sicrhau mai dim ond y cyfarpar angenrheidiol oedd ar gael a bod y staff yn gymwys i'w defnyddio. Gwelsom fod y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant mewn cynnal bywyd sylfaenol, ond nad oeddent wedi dilyn unrhyw hyfforddiant cynnal bywyd lefel uwch. Gwnaethom awgrymu y dylent ystyried rhoi hyfforddiant i rai aelodau staff mewn sgiliau cynnal bywyd ychwanegol.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Gwelsom fod cofnod o'r holl bryderon, cwynion a digwyddiadau. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr un ohonynt yn weithredol ac roedd pob un wedi'u datrys.

Dywedwyd wrthym am y system oedd ar waith i adolygu digwyddiadau, a oedd yn dibynnu ar y lefel o ddifrifoldeb. Ar gyfer pryderon a digwyddiadau difrifol, byddai'r materion yn cael eu hadolygu ar unwaith. Roedd pob digwyddiad arall yn cael ei adolygu yn ystod y cyfarfod digwyddiadau nesaf – mae'r rhain yn cael eu cynnal ddwywaith y mis.

Cofnodir digwyddiadau'n ymwneud â chleifion a digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â chleifion i gyd mewn un llyfr, gan fod rheolwyr y clinig eisiau cael gwybod am ystod lawn y problemau sy'n effeithio ar y gwasanaeth, gan y gallai pob un ohonynt arwain yn y pen draw at brofiad llai cadarnhaol i'r claf os na roddir sylw digonol iddynt.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd tîm staff sefydlog yn gweithio yn y gwasanaeth, a'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol oedd yn eu harwain o ddydd i ddydd. Anogwyd y staff i fynd ati i gyfrannu syniadau at y gwaith o redeg y gwasanaeth, a gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'r uwch staff eraill yn gweithio'n galed i hybu darpariaeth gofal a thriniaeth o ansawdd uchel.**

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Gwelsom dystiolaeth o dîm cryf yn gweithio yn y clinig, gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol (y ddau ohonynt yn ymgynghorwyr clinigol) yn eu cefnogi.

Gwnaethom siarad â nifer o wahanol aelodau o staff. Roedd pob un ohonynt yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, ac yn hyderus yn eu gallu i wneud awgrymiadau ynghylch profi syniadau newydd a allai wella'r ffordd maent yn gweithio.

Roedd yn amlwg bod y rheolwr cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol, un o'r nyrsys ffrwythlondeb, a'r embryolegydd ymgynghorol, sef y tîm rheoli sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth, yn rhoi arweinyddiaeth glir. Roeddent wedi penodi rheolwr practis yn ddiweddar a fyddai'n ymgymryd â'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac a fyddai'n rhan allweddol ychwanegol o'r tîm rheoli.

Roedd y tîm eisoes yn archwilio ansawdd eu gwaith ac yn cynnal cyfarfodydd ansawdd bob mis. Roeddent yn defnyddio'r rhain i drafod polisïau, gweithdrefnau, ac unrhyw faterion fyddai'n codi fyddai angen rhoi sylw iddynt.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Roedd tîm staff sefydlog ar gael, ac roedd llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y clinig ers iddo agor. Pan fyddai staff newydd yn cael eu recriwtio, cynhaliwyd archwiliadau cyn-cyflogi er mwyn pennu os fyddent yn addas i fod yn rhan o'r gwaith yn y gwasanaeth. Gwelsom enghraifft o'r archwiliadau hyn, ac roeddem o'r farn y gellid gwella'r gweithdrefnau o ran cael geirdaon fel bod dau eirda ysgrifenedig ar gyfer pob aelod o'r staff, yn unol â'r rheoliadau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael ail-wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddiweddar er mwyn diweddaru eu cofnodion.

Roedd cofnodion ar gael o'r hyfforddiant yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddilyn, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithredu dull o gefnogi pob aelod o'r staff i ddilyn hyfforddiant ychwanegol fyddai'n berthnasol i'w datblygiad. Roedd un aelod o'r staff

yn cael cefnogaeth ar y pryd i gael cymhwyster gradd meistr arbenigol, a fyddai'n ei galluogi i ddefnyddio sgiliau clinigol ychwanegol yn y gwasanaeth ar ôl cwblhau'r radd.

## 6. Y Camau Nesaf

Un o ganlyniadau'r arolygiad hwn yw bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Mae'r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

The improvement plan should clearly state how the improvement identified at Centre for Reproduction and Gynaecology Wales will be addressed, including timescales.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth: Centre for Reproduction and Gynaecology Wales Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 12 a 13 Ionawr 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | ***Adolygu'r polisi rhoi caniatâd presennol i sicrhau ei fod yn cyfeirio at sut y dylai staff ymateb i newidiadau posibl o ran cydsyniad claf, a allai ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses driniaeth.*** | Rheoliad 9 / Safon 9 | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 10 | ***Adolygu'r polisïau diogelu presennol a sicrhau eu bod mor*** | Rheoliad 16 / Safon 11 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***drylwyr a phriodol â phosibl, gan ystyried y maes gwaith arbenigol.*** | | | | |
| 10 | ***Sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer cael gwared ar wastraff hylif a bod y rhain yn cael eu gosod fel na ellir halogi arwynebau ac offer glân wrth eu gwaredu.*** | Rheoliad 15/<br>Safon 13 | | | |
| 11 | ***Adolygu'r broses gwneud golch bresennol, gan gynnwys sicrhau bod y cylch golchi yn ddigonol. Rhoi gwybod i AGIC yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad hwn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth sydd wedi llywio'r penderfyniadau a wnaed.Os bydd y system bresennol yn parhau, rhoi gwybod i AGIC yn ysgrifenedig pwy fydd yn gwneud y golch yn y*** | Rheoliad 15 / Safon 13 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***dyfodol a ph'un a yw'n bosibl graddnodi'r peiriant yn barhaus.*** | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim angen gwneud unrhyw welliannau | | | | |

## Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................